

# Canllaw i ofalwyr di-dâl: a fydddech yn gallu ymdopi mewn argyfwng?



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)





# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad	1
Cael cymorth ar frys	2
Beth y gall y gwasanaethau cymdeithasol ei wneud mewn argyfwng?	3
Beth fyddai'n digwydd petai gofalwr yn sâl?	4
Poeni nad fyddai neb arall yn gallu gwneud y gwaith?	4
Beth sydd angen ei ystyried wrth gynllunio o flaen llaw?	5
Beth ydy argyfwng?	7
Rhoi gwybod i'r meddyg teulu	8
Problemau cyffredin a sut mae eu hosgoi	9
Beth i'w wneud wedi codwm	11
Cathetr wedi blocio	11
Mae rhywun sy'n ddryslyd wedi cerdded allan o'r tŷ	12
Awgrymiadau ymarferol eraill	13
Argyfwng fel llifogydd neu dân	17
Cysylltiadau defnyddiol	22

### *Ymwrthodiad*

*Er y gwnaed pob ymdrech i wneud yn siwr bod cynnwys y llyfryn hwn yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ni all Cyngor Gwynedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau, diffygion, safon y wybodaeth neu'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrrff eraill; ni allwn chwaith argymhell cynhyrchion neu wasanaethau.*



**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

 **01766 771000** •  [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Cyflwyniad

Efallai na allwn ragweld pa bryd bydd argyfwng yn codi ond drwy feddwl a pharatoi o flaen llaw gallwch fod un cam ar y blaen ac ymdopi yn well os yw'r gwaethaf yn digwydd.

Mae hyn yn wir mewn amryw o sefyllfaoedd - o orfod gadael eich cartref ar frys oherwydd llifogydd i wynebu gwaieidd neu brofedigaeth.

Bwriad y llyfryn hwn yw eich helpu i feddwl sut gallwch wneud paratodau ymarferol a syml fyddai'n addas ar gyfer pob math o sefyllfaoedd.



## A ydych yn edrych ar ôl rywun sâl, bregus neu anabl?

Mae'r daflen hon wedi ei hanelu at bobl sy'n rhoi gofal i rywun arall, heb dderbyn tâl am wneud hynny. Yn aml iawn, mae'r bobl hyn yn cynnwys gwyr a gwragedd, partneriaid, meibion a marchod, aelodau eraill y teulu neu ffrindiau a chymodogion.

Efallai nad ydych yn meddwl eich bod yn gwneud rhywbeth eithriadol, ond heb eich gofal byddai bywyd yr unigolyn yn wahanol iawn. Mae gofalu am rhywun yn gallu rhoi boddhad mawr, ond mae hefyd yn waith caled. Dyma pam fod Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd roi cymorth, cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i ofalwyr.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Cynllunio o flaen llaw

Pan fo rhywbeth allan o'r cyffredin yn digwydd, er enghraifft eira trwm neu gyfnod heb drydan, y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn anodd. Ond fel gofalwr, mae gennych y pwysau ychwanegol o orfod meddwl am y person sy'n ddibynnol arnoch am gymorth a chefnogaeth hanfodol.

Drwy baratoi o flaen llaw, a dilyn rhai o'r awgrymiadau yn y llyfryn hwn, byddwch mewn gwell sefyllfa i wybod beth i'w wneud pe byddai argyfwng yn codi - a hynny yn y dydd, yn ystod y nos, ar benwythnos neu ar wyl y banc.

Fel gofalwr, gall cynllunio o flaen llaw hefyd helpu atal rhywbeth digon dinod, fel colli allwedd y tŷ neu orfod treulio noson yn yr ysbyty, rhag troi yn argyfwng neu drychineb hyd yn oed. Gall roi tawelwch meddwl i chi a'ch teulu.

## Cael cymorth ar frys

Mewn argyfwng ffoniwch **999** neu **112** (ambiwlans, heddlu, tân)

**Yr Heddlu** - pan nad yw'n argyfwng, ffoniwch **101**

## Gwasanaeth meddygol tu allan i oriau

Gwasanaeth meddygol brys dros nos, rhwng 6:30pm - 8:00am ddyddiau'r wythnos a thrwy'r dydd ar benwythnosau a gwyl y banc - **0300 123 5566**

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Galw Iechyd Cymru

Gwasanaeth ffôn 24 awr sy'n darparu cyngor a gwybodaeth - III

## Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Darparu gwasanaeth ar gyfer argyfyngau gwaith cymdeithasol sy'n digwydd y tu allan i oriau swyddfa arferol - **01248 353551**

## Beth y gall y gwasanaethau cymdeithasol ei wneud mewn argyfwng?

Os cysylltwch ag Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Gwynedd, ***efallai gallant***

- Rhoi cyngor ynglŷn â lle mae modd cael cymorth, a threfnu cymorth yn unol â'r gofyn
- Rhoi cymorth i chi gysylltu â'ch perthnasau a ffynonellau cymorth eraill
- Trefnu gofal brys, er enghraifft gofal preswyl neu gofal cartref mewn argyfwng, os oes angen
- Os ydych wedi cael asesiad gan y gwasanaeth yn y gorffennol, bydd gwybodaeth am eich anghenion chi, ac anghenion y person rydych yn gofalu amdanynt, ar ffeil
- Trefnu ymweliad â'r cartref a sicrhau bod rhywun yn ddiogel, os oes angen. Trefnu ymweliad, wedi hynny, gan y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) lleol er mwyn sicrhau bod trefniadau hirdymor ar waith - er enghraifft, os bydd yn rhaid i ofalwr fynd i'r ysbyty.

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Beth fyddai'n digwydd petai gofalwr yn sâl?

Ceisiwch feddwl o flaen llaw pwy fyddai'n gallu eich helpu pe byddech yn sâl neu'n gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty:

- Pa help fyddwch chi ei angen?
- Fyddai rhywun yn gallu ysgwyddo'r gyfrifoldeb i gyd?
- Fyddai teulu neu ffrindiau yn gallu rhannu'r gwaith?
- Fyddai pobl eraill yn gwybod beth i'w wneud?
- Ydych yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael drwy wasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth iechyd?



## Poeni na fyddai neb arall yn gallu gwneud y gwaith?

Os oes rhai tasgau yr ydych yn eu gwneud fel gofalwr di-dâl rydych yn teimlo na fyddai rhywun arall yn gallu ei wneud, megis helpu i ymolchi a gwisgo'r person rydych yn gofalu amdano, cysylltwch â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i drafod pa help sydd ar gael, a hynny cyn fod problem yn codi.

Efallai na fyddwch byth angen yr help hwn, ond yn aml mae'n well cael y tawelwch meddwl o wybod bydd cymorth ar gael petai angen.

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

Mae'n syniad da i chi a'r person rydych yn gofalu amdano i ddod i arfer cael rhywun arall i wneud y gwaith o dro i dro. Gall hyn eich helpu chi a'r person rydych yn gofalu amdano ymdopi petai problem yn codi.

Byddwch chi yn poeni llai am y person rydych yn gofalu amdano a bydd y person rydych yn gofalu amdanynt yn gyfarwydd â gofalwyr eraill a threfniadau dros dro. Mae'n debyg y byddai llai o straen ar y sefyllfa petai argyfwng yn codi.

Dylech ystyried trafod hyn gyda'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdano.

Mae'r un peth yn wir am ofal seibiant. Os yw'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdano wedi bod am arhosiad byr mewn cartref preswyl lleol o'r blaen, bydd yn haws iddo fynd yno mewn argyfwng. Mae rhai cartrefi hefyd yn cynnig gofal dydd.

## Beth sydd angen ei ystyried wrth gynllunio o flaen llaw?

**Asesiad gofalwyr** - Mae gan ofalwyr di-dâl hawl gyfreithiol i gael Asesiad Gofalwr. Os ydych yn rhoi cymorth hanfodol i'r sawl yr ydych yn gofalu amdano, gofynnwch am gael cynnwys cynllun wrth gefn yn eich cynllun gofal. Os ydych yn cysylltu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn argyfwng, gall y gweithwyr gyfeirio at eich asesiad a gweld yn union beth yw eich anghenion a'ch trefniadau wrth gefn.

**Rhifau ffôn defnyddiol** - Ysgrifennwch restr o rifau cyswllt y bobl a fyddai'n gallu eich help a sicrhewch fod y rhestr hon yn cael ei chadw mewn man amlwg.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

**Trafod o flaen llaw** - Os ydych yn dibynnu ar aelodau'r teulu neu ffrindiau i'ch helpu mewn argyfwng, gwnewch yn siw^r eich bod yn trafod o flaen llaw beth fydd angen iddynt ei wneud.

**Paratoi gwybodaeth** - Dylech baratoi gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer y sawl fydd yn cymryd eich cyfrifoldebau dros dro. Gall hyn gynnwys:

- Rhif cyswllt y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau
- Rhif cyswllt y Gwasanaeth Meddyg Teulu ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau
- Manylion meddyginiaeth, gan nodi beth ydynt a ble mae'n cael ei gadw (cofiwch nodi os oes gan yr unigolyn gerdyn Warffarin ac ati)
- Manylion am afiechyd yr unigolyn, anabledd neu batrymau ymddygiad
- Hoff bethau a chas bethau'r unigolyn, ei ddiddordebau, pynciau i'w hosgoi
- Anghenion iaith, y defnydd a wneir o arwyddion, signalau, y defnydd a wneir o eiriau (mae hyn yn bwysig yn nghyswllt rhywun sy'n anghofus)
- Manylion am eu hanghenion gofal, lleoliad y cynllun gofal
- Pwy arall sy'n gysylltiedig â'u gofal - canolfannau dydd, asiantaethau gofal, gwasanaethau prydau ac ati. Nodwch eu manylion cyswllt a/neu fanylion eich Tîm Adnoddau Cymunedol Lleol (gweler tud. 22) a fydd yn gallu eich rhoi ar ben ffordd.
- Gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r cartref, er enghraifft y system wresogi, y golau, tapiau atal y cyflenwad dŵr; rhifau cyswllt defnyddiol fel y Cyngor, plymwr ayb



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

- Manylion cyswllt y deintydd/yr ysbyty rhag ofn bod angen canslo apwyntiadau
- Efallai bydd gofyn i'r person sy'n cymryd eich gwaith gofalu dros dro ofalu am anifeiliaid anwes hefyd. Ysgrifennwch gyfarwyddiadau am eu patrymau bwydo ac ymarfer, manylion cyswllt y milfeddyg, a manylion unrhyw feddyginiaeth sydd ei angen arnynt.

## Beth ydy argyfwng?

Mae'n syniad da i ofalwyr di-dâl gymryd ychydig o amser i feddwl am y gwahanol sefyllfaoedd allasai godi, beth fyddai eu heffeithiau, a pa gamau y gallwch eu cymryd rw^ an i atal problem rhag troi yn argyfwng.

Dyma restr o sefyllfaoedd posib a pethau i'w hystyried. Cofiwch mae amgylchiadau pawb yn wahanol a bydd rhai sefyllfaoedd nad ydynt wedi eu rhestru yma sy'n berthnasol i chi:

- **Y prif ofalwr yn methu cynnig gofal** - er enghraifft rydych yn hwyr yn cyrraedd gartref oherwydd tagfeydd traffig neu apwyntiad yn rhedeg yn hwyr; rydych yn cael ei taro yn wael; eich bod yn gorfod cael triniaeth ysbyty; salwch aelod arall o'r teulu neu brofedigaeth. Ystyriwch pa mor ddifrifol fyddai'r sefyllfaoedd hyn a beth fyddech yn ei wneud i ymdopi.
- **Problem efo'r cynllun wrth gefn** - Os mai ffrindiau ac aelodau'r teulu sy'n rhoi cefnogaeth i chi, beth fyddai'n digwydd os bydden nhw yn sâl neu os na fyddech yn gallu cysylltu efo nhw? Efallai gall rhywun arall eich helpu o bryd i'w gilydd?

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01 766 771 000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

## Canllaw i ofalwyr di-dâl

- **Ymdopi am gyfnod byr** - Fyddai'r person rydych yn gofalu amdano yn gallu bod ar ei ben ei hun am gyfnod byr? Fyddden nhw'n ymdopi? Fyddden nhw'n ddiogel? Efallai y byddai offer arbenigol fel teclynnau Teleofal o help? (Gweler tud. 10)
- **Cartref preswyl** - Ydych wedi cysidro trefnu i fod y person rydych yn gofalu amdano yn treulio cyfnod mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio, petai rhywbeth yn eich atal rhag gofalu amdanynt? Fyddai angen trefnu trafndiaeth? Fyddden nhw yn cynhyrfu neu'n bryderus? Ystyriwch siarad efo nhw am y mater.

### Rhoi gwybod i'r meddyg teulu

Ydy'ch meddyg teulu yn gwybod eich bod yn ofalwr di-dâl?

- Gofynnwch yn eich meddygfa am ffurflen gofrestru. Drwy roi gwybod i'r meddyg teulu bydd yn egluro pam eich bod angen apwyntiad ar adeg benodol neu ymweliad cartref, er enghraifft. Fel gofalwr di-dâl mae gennych hawl i frechiad blynyddol rhag y fflw; dylai hyn gael ei gynnig yn awtomatig ar ôl i chi gofrestru fel gofalwr di-dâl.
- Cofiwch ddweud wrth y feddygfa beth yw eich trefniadau gofalu wrth gefn, hynny yw beth ddylai ddigwydd mewn argyfwng neu os nad ydych yn gallu gofalu.

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Problemau cyffredin a sut mae eu hosgoi

Fel y gwyddoch, oherwydd natur y gyfrifoldeb rydych yn ei ysgwyddo, mae peryg i broblemau bychan droi i fod yn argyfwng yn sydyn iawn. Ond drwy gymryd camau ymarferol, a chynllunio o flaen llaw, mae modd osgoi nifer o sefyllfaoedd anodd:



## Cloi eich hunain allan o'r tŷ

Mae'n syniad da gadael allwedd sbâr efo ffrind neu berthynas sy'n byw gerllaw neu gymydog, rhag ofn i chi golli goriad neu gloi eich hun allan - yn enwedig os nad oes neb arall heblaw y person rydych yn gofalu amdano yn byw gyda chi. Ystyriwch adael goriadau efo mwy nag un person, er mwyn cynyddu eich siawns o gael help petai sefyllfa o'r fath yn codi.

Os nad oes gennych gyfaill / cymydog / aelod o'r teulu yn byw gerllaw rydych yn ymddiried ynddynt, dylech ystyried gosod bocs **Keysafe** neu debyg ar wal y tŷ. Mae'r blwch metel cryf yn agor efo rhif cod unigryw. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Gofal a Thrwsio Gwynedd ar **0300 111 333**, neu holwch yn eich siop nwyddau haearn neu siop torri goriadau lleol. Mae'n bosib bydd angen cyflogi crefftwr lleol i osod y blwch ar eich cartref a gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis bocs sydd ddigon mawr i ddal allwedd y drws.

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Galw am help

Os oes problem yn codi mae'n hanfodol eich bod chi neu gwasanaethau gofal yn cael gwybod cyn gynted â phosib, er mwyn helpu.

Mae technoleg yn gallu helpu yn y maes hwn, er enghraifft system Teleofal sef cyfuniad o sensoriaid a botymau o gwmpas yr aelwyd. Mae'r system yn rhoi gwybod am bob math o sefyllfaoedd a phroblemau posib, gan gynnwys:

- os ydy person bregus yn crwydro o'r tŷ
- tân neu llifogydd
- tymheredd eithafol, er enghraifft os yw'r popty wedi ei adael ymlaen
- person wedi eu taro yn wael neu wedi cael codwm.

Mae'r system yn gallu rhoi tawelwch meddwl i'r gofalwr di-dâl os nad ydynt yn gallu bod gartref drwy'r adeg gan fod y sensor neu'r botwm yn cysylltu efo canolfan fonitro sy'n weithredol ddydd a nos. Bydd staff y ganolfan fonitro wedyn yn cysylltu efo chi fel prif ofalwr i roi gwybod beth yw'r problem. Gellir hefyd cysylltu efo cyfaill os nad ydych chi ar gael neu'r gwasanaethau brys.

Bydd eich pecyn Teleofal yn ateb eich gofynion penodol chi. Cysylltwch â Chyngor Gwynedd am fwy o wybodaeth - **01286 679059**.



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Beth i'w wneud wedi codwm

Os yw'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdano wedi syrthio a'ch bod yn credu ei fod wedi anafu ei hunan, ffoniwch y Gwasanaeth Ambiwylans ar **999**.

Os ydynt wedi cael codwm a heb frifo, ond yn teimlo'n sigledig, dylech sicrhau eu bod yn gynnes ac yn gyfforddus drwy ddefnyddio clustog a blancedi / duvet a gadewch iddynt godi yn eu hamser eu hunain. Neu galwch am help gan gyfaill / aelod o'r teulu cyn ceisio eu codi. Byddwch yn ofalus i beidio anafu eich hun drwy geisio codi person o'r llawr.

Gall codymau fod yn arwydd fod rhywbeth o'i le felly mae wastad yn syniad da dweud wrth weithiwr iechyd megis meddyg teulu neu nyrs ardal fel y gallant roi cyngor i chi.

## Cathetr wedi blocio

Os oes gan yr unigolyn rydych yn gofalu amdano gathetr sydd wedi blocio mae'r sefyllfa yn argyfwng a dylech geisio cymorth yn syth.

Yn ystod oriau swyddfa, cysylltwch â'ch meddygfa arferol - dywedwch yn syth wrth y derbynnydd beth sydd wedi digwydd a gofynnwch am gael siarad â'r nyrs ardal.

Os ydy hyn yn digwydd gyda'r nos, ar benwythnos neu ar wyl y banc, ffoniwch **Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau 0300 123 5566**. Bydd yr un rhif i'w glywed ar beiriant ateb eich meddyg teulu pan fo'r feddygfa ar gau.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ **01766 771000** • ✉ **[Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)**

🌐 **[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)**

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Mae rhywun sy'n ddrislyd wedi cerdded allan o'r tŷ

Os gallwch, ewch allan i chwilio yn y gymdogaeth leol. Peidiwch ag oedi cyn rhoi gwybod i'r heddlu - ffoniwch **101** yn syth os ydych yn bryderus. Dyma rif yr heddlu lleol ble bynnag yr ydych yng Ngwledydd Prydain ar gyfer achosion nad ydynt yn fater brys.

Pan rydych yn siarad efo'r heddlu, pwysleiswch fod yr unigolyn yn ddrislyd yn feddyliol ac yn agored i niwed.

Os ydy'r person rydych yn gofalu amdanynt yn crwydro dro ar ôl tro, dylech siarad â meddyg teulu'r unigolyn ynglŷn â'r mater hwn. Mae cymorth a chefnogaeth ar gael a gallant eich cynghori ar hyn. Peidiwch ag aros hyd nes y bydd wedi mynd i'r pen arnoch cyn gofyn am help. Gofynnwch am help yn fuan yn hytrach na hwyrach.



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Awgrymiadau ymarferol eraill

Ystyriwch ffyrdd o sicrhau nad yw'r person rydych yn gofalu amdano yn cael eu rhoi mewn perygl petai chi'n cael eich taro'n yn wael neu'n cael eich anafu mewn damwain. Dyma syniadau ymarferol er mwyn rhoi gwybod i bobl fyddai'n gallu helpu fod rhywbeth wedi mynd o chwith, ac i roi tawelwch meddwl i chi.



## Cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr

**Gwynedd** - Mae'r gwasanaethau brys a staff ysbytai yn gwybod beth yw arwyddocâd y cerdyn, o weld eich bod yn cario'r cerdyn gwyddant fod rhywun sy'n llwyr ddibynnol arnoch ar gyfer gofal sylfaenol yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd oherwydd eich absenoldeb.

Mae rhif ffôn 24-awr Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cerdyn a gallant roi gwybod beth sydd wedi digwydd i chi. Bydd staff Gwasanaethau Cymdeithasol wedyn yn gweithredu eich cynllun gofal argyfwng / cynllun wrth gefn, ac yn sicrhau fod y person rydych yn gofalu amdano yn ddiogel.

Mae'r cynllun yn rhad ac am ddim a byddwch yn derbyn cerdyn bychan sydd yr un maint a cherdyn credyd i'w gario yn eich pwrs neu waled. Cewch fwy o wybodaeth a chofrestru drwy eich Tim Adnoddau Cymrunedol lleol (gweler tud. 22)

**Defnyddiwch eich ffôn symudol** - Storiwch fanylion cyswllt eich teulu neu gyfeillion agosaf yn eich ffôn symudol (mobile) o dan yr enw 'ICE'.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

## Canllaw i ofalwyr di-dâl

Mae'r cynllun ICE (In Case of Emergency / Mewn Achos Brys) yn cael ei gydnabod drwy Wledydd Prydain, Ewrop a rhannau eraill o'r byd fel un ffordd gall y gwasanaethau brys neu staff mewn ysbyty gysylltu â'ch teulu os ydych wedi cael eich anafu mewn damwain neu eich taro'n ddifrifol wael. Dylech hefyd ystyried cadw'r un wybodaeth wedi ei ysgrifennu yn eich poced, pwrs neu waled, rhag ofn nad ydy'ch ffôn yn gweithio neu fod y sgrin wedi cloi.

I wneud hyn, crëwch gofnod newydd yn llyfr ffôn eich ffôn symudol o'r enw ICE ac enw'r person fydddech am i'r staff gwasanaethau brys gysylltu a nhw, a'r rhif ffôn cywir. Gallwch greu mwy nag un cyswllt ICE, er enghraifft ICE1 – Dafydd a'r rhif ffôn cywir; ICE2 – Mam a'r rhif ffôn cywir.

Gwnewch yn siŵr bod eich bod yn dewis rhif rhywun y bydd modd cysylltu â nhw yn sydyn, er enghraifft ystyriwch gynnwys rhif ffôn symudol rhywun sy'n gweithio llawn amser.

Gwnewch yn siŵr bod yr unigolyn yr ydych yn rhoi ei enw a'i rif ffôn wedi cytuno i fod yn bartner 'ICE'. Dylech hefyd sicrhau bod gan eich partner ICE restr o bobl y gellir cysylltu â hwy ar eich rhan, er enghraifft eich lleoliad gwaith. Yn ogystal, dylent gael gwybod am unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar eich triniaeth frys, gan gynnwys alergeddau neu feddyginiaeth.

Os ydych o dan 18 oed, dylech ddewis eich rhiant, gwarcheidwad neu aelod agos o'r teulu sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau ar eich rhan os bydd rhaid i chi fynd i'r ysbyty.



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

**Os nad ydych yn berchen ar ffôn symudol**, ystyriwch brynu un fel un ffordd o gadw meddwl tawel. Byddai modd cysylltu â chi pan fyddwch allan a os oes problem yn y cartref a gallwch chithau gysylltu â theulu neu ffrindiau os ydych yn gweld y byddwch yn hwyr adref neu angen cymorth.

Gallwch brynu **ffôn symudol 'talu wrth siarad'** sy'n golygu nad ydych ond yn talu am y galwadau yr ydych yn eu gwneud. Nid oes tâl am rentu na llogi'r ffôn.



Mae'r rhain yn ddelfrydol ar gyfer pobl nad ydynt ond am ddefnyddio'r ffôn ar gyfer achosion brys, ac gallwch storio'r holl rifau ffôn fydd eu hangen arnoch mewn argyfwng, ar y ffôn.

**Neges mewn potel** - Dyma ymgyrch genedlaethol i annog pobl i gadw manylion am gyflyrau meddygol a meddyginiaethau mewn lle cyffredin ym mhob cartref, fel bo gweithwyr y gwasanaethau brys yn dod o hyd i'r wybodaeth yn hawdd os ydych yn cael eich taro'n wael neu yn cael damwain ddifrifol.

Rhowch y manylion, a rhestr o bobl y gellir cysylltu â hwy mewn argyfwng, mewn potel blastig gyda croes werdd arni yn yr oergell. Rhowch arwydd croes werdd ar ddrws yr oergell ac ar y wal tu mewn i'r drws allan eich cartref, i dynnu sylw parafeddygon neu'r heddlu os ydynt yn cael eu galw i'ch tŷ.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

Mae'r poteli gwyrdd ar gael o stondin gwybodaeth yn Ysbyty Gwynedd neu gan y Swyddog Gwybodaeth ac Ymgysylltu (Gofalwyr di-dâl), Cyngor Gwynedd, ar **01286 679742** neu [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

## Gofal anifeiliaid anwes mewn argyfwng

Mae'r ymddiriedolaeth The Cinnamon Trust yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl hŷn a bregus a'u hanifeiliaid anwes. Mae'r elusen yn deall pa mor bwysig yw ci, cath neu aderyn i hapusrwydd a lles person ac yn gwybod pa mor anodd mae'n gallu fod iddynt edrych ar eu hol yn iawn. Gall yr ymddiriedolaeth gynnig help ymarferol fel mynd â'r ci am dro neu nôl bwyd i'r gath, a chynnig llety os ydy person yn gorfod mynd i ysbyty neu gartref preswyl am gyfnod. Gellir hefyd wneud trefniadau iddynt ofalu am anifail wedi marwolaeth perchennog. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, ond maent yn gwerthfawrogi'n fawr iawn cyfraniadau tuag at eu costau. Gellir cysylltu â hwy drwy ffonio **01736 757900**.

## Gwasanaethau Blaenoriaeth - Dŵr Cymru.

Gall pobl wneud cais am Wasanaethau Blaenoriaeth Dŵr Cymru os oes rhywun yn y cartref sydd angen dŵr oherwydd cyflwr meddygol, neu gyda anhawsterau symudedd a fyddai'n ei wneud yn anodd iddynt fynd i siop i brynu dŵr mewn potel. Cewch gofrestru am ddim ar gyfer y gwasanaeth ar-lein neu lawr lwytho'r ffurflen a'i dychwelyd trwy'r post, [Gwasanaethau â Blaenoriaeth | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](#) neu ffoniwch **0800 052 0145** am ffurflen gais (Ilinell ar agor Llun-Gwener, 8am-6pm, a Sadwrn, 8.30am – 1.30pm)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Rhwydweithiau Ynni SP (SP Energy Networks)

Mae gan Rhwydweithiau Ynni SP gofrestr ar gyfer eu cwsmeriaid mwyaf bregus, hynny yw pobl sy'n dibynnu ar drydan ar gyfer offer meddygol neu bod ganddynt anghenion arbennig eraill. Enw'r cofrestr hwn yw Priority Services Register. Gallwch fod ar y cofrestr os oes rhywun yn eich tŷ yn dibynnu ar offer meddygol, yn anabl, neu fod ganddynt salwch cronig neu anghenion arbennig eraill.

Mae'n rhad ac am ddim ac gallwch ymuno naill ai ar-lein [Priority Services Register - SP Energy Networks](#) neu drwy ffonio **0330 10 10 67**

## Argyfwng fel llifogydd neu dân

Mae'n syniad da i bawb roi ystyriaeth i beth ddylai ddigwydd petai tân, llifogydd neu argyfwng arall yn effeithio eu cartref. Mae hyn yn arbennig o wir mewn teuluoedd ble mae person bregus yn byw. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhestr o awgrymiadau i'ch arwain chi fel gofalwr i wneud cynlluniau ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

## Pethau cyffredinol i'w ystyried mewn argyfwng o'r fath:

- Gwnewch gynllun gweithredu fel bod pawb yn eich cartref yn gwybod sut i ddianc mewn argyfwng fel tân neu ddifrod sylweddol i'r tŷ

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

## Canllaw i ofalwyr di-dal

- Cadwch y ffyrdd allan yn glir fel y gall pobl ddianc a gwnewch yn siŵr fod pawb yn eich tŷ yn gallu dod o hyd i oriadau'r drysau a'r ffenestri yn hawdd
- Ystyriwch os byddwch yn gallu mynd â meddyginiaeth gyda chi petai rhaid dianc o'r tŷ
- Ystyriwch gadw unrhyw offer neu nwyddau holl bwysig mewn bag i'w gipio'n sydyn petai tân, er enghraifft padiau ymatal, offer bwyta/yfed arbenigol, blanced. Mae mwy o fanylion am sut i greu bag argyfwng yn y llyfryn hwn.
- Os oes gennych fag argyfwng, cofiwch gynnwys rhestr o rifau ffôn defnyddiol ynddo.



### Llifogydd

Yma yng Nghymru, mae un o bob chwech cartref mewn peryg o ddioddef llifogydd. Mae camau ymarferol gallwch eu cymryd i leihau'r peryg i chi, y person rydych yn gofalu amdano a'ch cartref:

- Holwch Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd gynt) os ydy eich cartref mewn peryg o ddioddef llifogydd
- Gofynnwch i dderbyn rhybuddion llifogydd - dros y ffôn, neges testun neu e-bost

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth mae'r gwahanol rybuddion yn ei feddwl
- Gwnewch baratoadau rhag ofn llifogydd, er enghraifft ystyriwch gael bagiau tywod yn barod neu fagioau plastig ar gyfer eich eiddo/dogfennau pwysig
- Gwnewch gynllun argyfwng - mae ffurflen arbennig i'w chael gan Cyfoeth Naturiol Cymru efo lle i chi lenwi manylion defnyddiol [Cyfoeth Naturiol Cymru / Paratoi ar gyfer llifogydd \(naturalresources.wales\)](#)
- Manylion cyswllt Floodline (i gofrestru i gael rhybuddion llifogydd) **0345 988 1188** neu cofrestrwch ar-lein [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestrwch i dderbyn rhybuddion llifogydd \(naturalresources.wales\)](#)

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestrwch i dderbyn rhybuddion llifogydd \(naturalresourceswales.gov.uk\)](#)

## Yr hyn y gallwch ei wneud i baratoi

Cymerwch amser i ddarganfod:

- Lle a sut i droi'r cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan i ffwrdd yn eich cartref
- Sut fydd eich teulu'n cadw cysylltiad
- A oes rywle y gallwch fynd mewn argyfwng yn hytrach na'r ganolfan argyfwng?
- Sut i diwnio i mewn i'ch gorsaf radio leol

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**

☎ 01 766 771 000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Bag Argyfwng

Dyma rai syniadau o'r pethau i'w cynnwys mewn bag argyfwng, yn ogystal â phethau penodol y gwyddoch y byddwch chi a'r person rydych yn gofalu amdano eu hangen:

- Pecyn cymorth cyntaf
- Radio, tortsh a batriâu dros ben
- Canhwyllau a matsis
- Dŵr potel
- Bwyd tun am 3 diwrnod ac agorwr tuniau
- Tameidiau i'w bwyta
- Unrhyw bethau sy'n hanfodol i bwy bynnag yn derbyn eich gofal, er enghraifft padiau ymatal
- Bwyd anifeiliaid anwes a rhywbeth i gludo'r anifeiliaid (os yn berthnasol)
- Pethau ymolchi a meddyginiaeth reolaidd
- Goriadau sbâr
- Copïau o ddogfennau pwysig, er enghraifft yswiriant adeiledd a chynnwys y tŷ, pasbort, trwydded yrru.



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Os ydych yn gorfod gadael eich cartref ar frys:

- Casglwch eich bag argyfwng
- Casglu arian parod, ffôn symudol, cardiau credyd a goriadau

## Os oes amser:

- Mynd â dillad cynnes i bawb
- Sicrhau diffodd tanau a holl daclau ac offer trydanol
- Cau holl ffenestri a chloi eich eiddo

## Os bydd argyfwng yn digwydd, cofiwch:

- Peidiwch â chynhyrfu
- Meddwl cyn gweithredu
- Mewn achosion o lifogydd neu dywydd garw gwrandewch ar eich gorsaf radio a theledu lleol
- Gwrandewch ar gyngor y gwasanaethau brys

## COFIWCH

Ni allwn ragweld pa bryd bydd argyfwng yn codi nag eu atal rhag digwydd. Ond gall meddwl a pharatoi o flaen llaw wneud gwahaniaeth mawr i sut rydych chi - a'r person rydych yn gofalu amdano - yn ymdopi.

### Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

## Cysylltiadau defnyddiol

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys cartrefi gofal a darparwyr gofal eraill (yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol).

☎ 0300 062 5609

✉ [CSSIW.North@wales.gsi.gov.uk](mailto:CSSIW.North@wales.gsi.gov.uk)

### Asesiad Anghenion Gofalwyr

I ofyn am Asesiad Anghenion Gofalwr, cysylltwch â:

#### Tîmau Adnoddau Cymunedol (Gwasanaethau Oedolion)

Llyn ☎ 01758 704099 ✉ [OedolionLlyn@gwynedd.llyw.cymru](mailto:OedolionLlyn@gwynedd.llyw.cymru)

Caernarfon ☎ 01286 679099 ✉ [OedolionCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru](mailto:OedolionCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru)

Bangor ☎ 01248 363240 ✉ [OedolionBangor@gwynedd.llyw.cymru](mailto:OedolionBangor@gwynedd.llyw.cymru)

Eifionydd-Gogledd Meirionnydd ☎ 01766 510300

✉ [OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru)

De Meirionnydd ☎ 01341 424499

✉ [OedolionDeMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:OedolionDeMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru)

### Tîm Cyfeirio a Derbyn Plant

☎ 01758 704455 ✉ [cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk](mailto:cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk)

### Sefydliadau Cefnogi Gofalwyr Gweithredu Dros Blant (Gofalwyr ifanc)

☎ 01248 364614

✉ [gwyneddyoungcarers@actionforchildren.org.uk](mailto:gwyneddyoungcarers@actionforchildren.org.uk)

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)



# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr

☎ 01248 370797

✉ [help@carersoutreach.org.uk](mailto:help@carersoutreach.org.uk)

🌐 [www.carersoutreach.org.uk](http://www.carersoutreach.org.uk)

## Carers Wales

☎ 02920 811 370

✉ [info@carerswales.org](mailto:info@carerswales.org)

🌐 [www.carersuk.org/wales](http://www.carersuk.org/wales)

## Mewn Argyfwng

## Gwasanaeth meddygon teulu tu allan i oriau

☎ 0300 123 5566

## Tîm Tu allan i Oriau Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Môn

☎ 01248 353551

## Galw Iechyd Cymru

☎ 111

🌐 [www.galwiechydymru.wales.nhs.uk](http://www.galwiechydymru.wales.nhs.uk)

## Y Samariad

☎ 116 123

Llinell Gymraeg: ☎ 0808 164 0123 (Bob dydd 7pm-11pm)

🌐 [www.samaritans.org](http://www.samaritans.org)

## Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Cyngor Gwynedd

Ffoniwch Galw Gwynedd, canolfan gyswilt y Cyngor,  
a gofyn am yr adran / person perthnasol.

☎ 01766 771000

🌐 [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

Yn ystod cyfnodau argyfwng (er enghraifft rhew ac eira neu lifogydd), mae gwybodaeth bwysig yn cael ei rannu drwy ffrwd newyddion Twitter a Facebook y Cyngor. Dilynwch Cyngor Gwynedd ar Twitter ar [www.twitter.com/CyngorGwynedd](https://www.twitter.com/CyngorGwynedd) a hoffwch ni ar Facebook ar [www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil](https://www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil)

## Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

🌐 [www.bcu.wales.nhs.uk](http://www.bcu.wales.nhs.uk)

Swyddfa Gwynedd

☎ 01286 672451

## Galw Iechyd Cymru

☎ 111

🌐 [www.galwiechydymru.wales.nhs.uk](http://www.galwiechydymru.wales.nhs.uk)

## Cludiant ysbyty

☎ 0300 123 231

# Canllaw i ofalwyr di-dâl

## Llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru

📧 [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

Linc i ffurflen cynllun llifogydd personol

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Paratoi ar gyfer llifogydd \(naturalresources.wales\)](http://CyfoethNaturiolCymru/Paratoiarygyferllifogydd(naturalresources.wales))

## Tai, addasiadau ac offer

Gofal a Thrwsio

☎ 0300 111 333

📧 [gofalathrwsio@gofalathrwsio.org](mailto:gofalathrwsio@gofalathrwsio.org)

📧 [www.gathmon.org](http://www.gathmon.org)

## Gwiriad Diogelwch Tân a Larymau Mwg yn y Cartref Am Ddim

☎ 01745 535250

📧 [www.nwales-fireservice.org/keeping-you-safe/at-home/free-smoke-alarm](http://www.nwales-fireservice.org/keeping-you-safe/at-home/free-smoke-alarm)

## Cyd Storfa

Os oes darn o offer (e.e. hoist) wedi torri/ddim yn gweithio, cyswlltwch â Cyd Storfa

☎ 03000 852878 (Llun i Gwener 8.30 – 4.30)

☎ 01978 758111 (rhif allan o oriau)

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)

📧 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Guide for unpaid carers: could you cope in an emergency?



Adult, Health & Wellbeing Department  
☎ 01766 771000 • ✉ [Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)  
🌐 [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)





# Guide for unpaid carers

## Contents

## Page

Introduction	1
Getting urgent help	2
What social services can do in an emergency?	3
What would happen should the carer be ill?	4
Worried that no one else could do the work?	4
What needs to be considered when forward planning?	5
What is an emergency?	7
Informing the GP	8
Common problems and how to avoid them	9
What do do in the event of a fall	11
Blocked catheter	11
Someone who is confused walks out of the house	12
Other practical suggestion	13
Emergency such as floods or fire	17
Useful contacts	22

### *Disclaimer*

*Whilst every effort has been made to ensure that the contents of this booklet are correct at the time of going to press, Gwynedd Council cannot accept any liability for errors, omissions, quality of information or services provided by other organisations; nor can we recommend products or services.*



**Supporting people to live independently and safely**

 **01766 771000** •  **[Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru)**

